**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG / WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON 20/03/2003**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
R Signifies the Member has declared an interest

# OPIN-2003-0009 Post Office Card Account/Cyfrif Cerdyn y Swyddfa Bost

21 Mar 2003 Raised by Rhodri Glyn Thomas

No Subscribers

*The National Assembly for Wales*

- *Notes the importance of the Post Office network.*
- *Notes that the London government will introduce a direct payment system for benefit distribution in Wales on the 1st of April.*
- *Expresses concern that the government has been pushing Post Office customers towards receiving future benefit payments directly through their bank accounts, whilst preventing promotion of the Post Office Card Account.*
- *Calls on the London government to fully market the Post Office Card Account, and to create and implement a detailed business plan outlining how the expected 40% loss in income will be made up.*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

- *Yn nodi pwysigrwydd rhwydwaith y Swyddfa Bost.*
- *Yn nodi y bydd llywodraeth Llundain yn cyflwyno system dalu uniongyrchol ar gyfer dosbarthu budd-daliadau yng Nghymru o 1 Ebrill ymlaen.*
- *Yn mynegi ei bryder at y ffaith bod y llywodraeth wedi rhoi pwysau ar gwsmeriaid y Swyddfa Bost i dderbyn budd-daliadau yn uniongyrchol drwy eu cyfrifon banc o hyn ymlaen, tra'i bod ar yr un pryd yn atal hyrwyddo Cyfrif Cerdyn y Swyddfa Bost.*

- *Yn galw ar lywodraeth Llundain i farchnata Cyfrif Cerdyn y Swyddfa Bost yn eang, ac i greu a rhoi ar waith gynllun busnes manwl fydd yn amlinellu sut y bwriedir gwneud iawn am y golled o 40% mewn incwm.*

## OPIN-2003-0008 Llysworney Bypass/Ffordd Osgoi Llyswyrny

20 Mar 2003 Raised by David Melding

No Subscribers

*Llysworney Bypass*

*The National Assembly for Wales recognises the need for a Llysworney Bypass and believes that the B4268 and B4270 should be improved to meet the development requirements of the western part of the Vale of Glamorgan.*

*Ffordd Osgoi Llyswyrny*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod bod angen Ffordd Osgoi heibio i Lyswyrny, ac yn credu y dylid gwella'r B4268 a'r B4270 er mwyn cwrdd â gofynion datblygu gorllewin Bro Morgannwg.*

## OPIN-2003-0007 Iawnderau Cwrdiaid Irac a Thwrci/Kurdish Rights in Iraq and Turkey

20 Mar 2003 Raised by Cynog Dafis

No Subscribers

*Iawnderau Cwrdiaid Irac a Thwrci*

*Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi pryderon y gymuned Gwrdaidd yn Nghymru ynghylch yr ysgelerderau a gyflawnwyd yn erbyn Cwrdiaid Irac a Thwrci gan Iywodraethau’r ddwy wlad ac yn galw am i iawnderau cymdeithasol, diwylliannol a democrataidd y Cwrdiaid gael eu parchu a’u cydnabod yn llawn gan bawb.*

*Kurdish rights in Iraq and Turkey*

*The National Assembly notes the concerns of the Kurdish community in Wales concerning the atrocities perpetrated against the Kurds of Iraq and Turkey by the governments of both countries and calls for the social, cultural and democratic rights of the Kurds to be fully respected and acknowledged by all.*

## OPIN-2003-0006 Iawnderau Ieithyddol a Democrataidd yn Ewscadi/Linguistic and Democratic Rights in Euskadi

18 Mar 2003 Raised by Eleanor Burnham, Cynog Dafis, Peter Law

8 Subscribers:

- Geraint Davies
- Dafydd Wigley
- Pauline Jarman
- Owen John Thomas MA
- Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther FRCGP
- Rhodri Glyn Thomas
- Helen Mary Jones
- Elin Jones

*Iawnderau Ieithyddol a Democrataidd yn Ewscadi*

*Gan nodi'r cyd-berthynas gyfeillgar rhwng llywodraethau Cymru ac Ewscadi (gwlad y Basgiaid) i hyrwyddo dwyieithrwydd, mae'r Cynulliad yn collfarnu penderfyniad Llywodraeth Sbaen i gau Egunkaria, y newyddiadur dyddiol Basgeg, ac i arestio deg aelod o'i staff; ac yn galw ar Lywodraeth Sbaen i wrthdroi'r gwaharddiad ar Egunkaria; ac i barchu iawnderau dynol ieithyddol a democrataidd yn Ewscadi ac ym mhob rhan o Sbaen.*

*Linguistic and Democratic Rights in Euskadi*

*Recalling the cordial relations between the governments of Wales and Euskadi (the Basque country) for the promotion of bilingualism, the Assembly condemns the action of the Spanish government in closing down Egunkaria, the Basque-medium daily newspaper, and arresting ten members of its staff; and calls upon the Spanish government to reverse the prohibition of Egunkaria, and to respect human linguistic and democratic rights in Euskadi and in all parts of Spain.*

## OPIN-2003-0005 Ail Ambiwlans Awyr i Gymru/Second Air Ambulance for Wales

17 Mar 2003 Raised by Elin Jones

6 Subscribers:

Helen Mary Jones
Jocelyn Davies
Rhodri Glyn Thomas
Cynog Dafis
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther FRCGP
Janet Ryder

*Ail Ambiwlans Awyr i Gymru*

*Mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod gwasanaeth pwysig yr Ambiwlans Awyr yn ceisio sicrhau fod cleifion ym mhob cwr o Gymru o fewn cyrraedd rhesymol i driniaeth brys angenrheidiol mewn ysbytai arbenigol. Mae'n wasanaeth sy'n arbed bywyd. Mae'r Cynulliad yma yn cefnogi'r angen am Ail Ambiwlans Awyr i Gymru ac yn annog y Weinyddiaeth Amddiffyn i ryddhau tir ar eu maes awyr yn Llanbedr, Meirionnydd ar gyfer y posibilrwydd o leoli ail Ambiwlans Awyr.*

*Second Air Ambulance for Wales*

*This Assembly acknowledges the important service provided by the Air Ambulance in ensuring that patients across Wales are within reasonable reach to necessary emergency treatment in specialist hospitals. The service saves lives. This Assembly supports the need for a Second Air Ambulance in Wales and encourages the Ministry for Defence to release land at their air base in Llanbedr, Meirionnydd as a possible location for the Second Air Ambulance*

## OPIN-2003-0004 Cerflun Iolo Morgannwg/ Iolo Morganwg Statue

07 Mar 2003 Raised by David Melding

6 Subscribers:

Brian Hancock
Rhodri Glyn Thomas
Geraint Davies

Gareth Jones
Cynog Dafis
David Jones

*Cerflun Iolo Morgannwg/ Iolo Morganwg Statue*

*Cerflun Iolo Morgannwg*

*Dylid codi cerflun er cof am fywyd a gwaith Iolo Morgannwg. O gofio'r cysylltiad rhwng Iolo Morgannwg â Sir Forgannwg, dylai'r cerflun gwreiddiol fod yn y Bont-faen a chopi rhywle yng Nghaerdydd er enghraifft ar Rodfa Lloyd George.*

*Iolo Morganwg Statue*

*The life and work of Iolo Morganwg should be commemorated by a statue. Given Iolo Morganwg's attachment to the County of Glamorgan, the original statue should stand in Cowbridge and a copy somewhere in Cardiff such as Lloyd George Avenue.*

## Amendments

A01 07 Mar 2003 Raised by Owen John Thomas MA

5 Subscribers

Brian Hancock
Rhodri Glyn Thomas
Dafydd Wigley
Geraint Davies
Gareth Jones

*Ychwanegwch y frawddeg ganlynol:*

*Byddai'r deyrnged addas hon i fywyd Iolo yn cydymffurfio â pholisi Plaid Cymru i greu cronfa o fewn cylch gorchwyl y Gweinidog Diwylliant er mwyn codi placiau a cherfluniau i goffau pobl a digwyddiadau nodweddiadol.*

*Add the following sentence:*

*This fitting tribute to Iolo's life would conform with Plaid Cymru's policy for the creation of a fund within the remit of the Culture Minister to erect plaques and sculptures to commemorate notable people and events.*

## OPIN-2003-0001 Rheoleiddio Contractau Fferyllol/ Regulation of Pharmacy Contracts

07 Feb 2003 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther FRCGP, David Melding, Lynne Neagle, Kirsty Williams

33 Subscribers:

- Helen Mary Jones
- Jocelyn Davies
- Pauline Jarman
- Phil Williams
- Cynog Dafis
- Geraint Davies
- Janet Davies
- Dafydd Wigley
- Christine Chapman
- Karen Sinclair
- Lorraine Barrett
- Janice Gregory
- Mick Bates
- Peter Rogers
- Ann Jones
- Elin Jones
- Eleanor Burnham
- Nicholas Bourne LLB LLM
- David Jones
- Alun Cairns
- David Davies
- William Graham JP
- Gareth Jones
- Huw Lewis
- Jonathan Morgan LLB MSc FRSA
- Gwenda Thomas
- Alison Halford
- Glyn Davies
- Brian Hancock
- Rhodri Glyn Thomas
- Peter Black
- Janet Ryder
- Owen John Thomas MA

*Rheoleiddio Contractau Fferyllol*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pryderu y bydd argymhellion yr adroddiad diweddar gan y Swyddfa Masnachu Teg am reoleiddio contractau fferyllol yn tanseilio'r rhwydwaith gwerthfawr o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru:*

*- am nad ydynt yn rhoi unrhyw ystyriaeth i'r gofal o ansawdd uchel a gynigir i gleifion gan fferyllfeydd cymunedol lleol;*

*- am y byddant yn tanseilio gweledigaeth greiddiol y Cynulliad yn ei Strategaeth Fferylliaeth, sef gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y claf;*

*- am y byddant yn arwain at gau fferyllfeydd cymunedol lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd sydd o dan anfantais;*

*- am y byddant yn golygu na fydd gwasanaethau fferyllol lleol ar gael yn hwylus i gleifion llai cefnog a chleifion sy'n cael anhawster symud.*

*Regulation of Pharmacy Contracts*

*The National Assembly for Wales is concerned that the recommendations of the recent Office of Fair Trading Report into the regulation of pharmacy contracts will undermine the highly valued network of community pharmacies in Wales because they:*

*- pay no regard to the provision of high quality patient care by local community pharmacies;*

*- undermine the patient centred services at the heart of the Assembly's Pharmacy Strategy;*

*- will lead to the closure of local community pharmacies especially in rural and disadvantaged areas;*

*- will lead to the exclusion of less well off and less mobile patients from local pharmacy services.*